# CAN ALARUS

AM

# 35 O GOLLIERS,

A GOLLASANT EU BYWYDAU

## YN MHWLL Y GETHIN,

### CYFARTHFA, ger MERTHYR,

*Dydd MERCHER*, 20 *o RHAGFYR*, 1865.

---

ENWAU Y PERSONAU, A'U HOEDRAN.

David Beddoe, 49, John James, 22, Alexander Richards, 23, John Lewis, 16, Vavasour Rees, 51, William Rees, 16, Griffith Morgan, 42, John Daniel, 47, Morgan Thomas, 16, Ayliffe William Stephens, 15, Samuel Harris, 28, Harding Lewis, 35, Thomas Bowen, 42, John Phelps, 13, Thomas Morgan, 46, Joseph Morgan, 16, John Morgan, 33, William Morris, 42, John Luke, 3[illegible], Roderick Thomas, 20, David Thomas, 24, James Thomas, 22, Lewis Price Thomas, 25, Daniel Price Thomas, 20, Rees Davies, 11, Griffith Ellis, 48, Henry Lewis, 13, David Davies, 18, David Ellis, 41, Joseph Rees, 29, Morgan Thomas, 16, John Morgan, 21, Rees Davies, 75, Thomas Morris, 35, David Luke, 12 oed.

---

Mor fynych y dygir newyddion
  Sy'n gwneuthur pob calon yn brudd;
Damweiniau a dirfawr golledion
  I glywed am danynt bob dydd;
Yr angeu yn ysgar teuluoedd,
  A gweuthur ugeiniau dan gur,
A lleisiau'r amddifaid a'r gweddwon
  Yn peri rhyw brudd-der trwy 'r tir.

Y ddamwain gerllaw Merthyr Tydfil
  A dodda galonau o ha'rn,
Tri deg a phump o weithwyr
  Ar fyr gafodd fyned i'r farn ;
Y gwyr yn ymadael a'u gwragedd,
  Y tadau'n rhoi ffarwel i'r plant,
A brodyr a garent eu gilydd
  Gymmerwyd o'r bywyd i bant.

Y gweithwyr aent allan y boreu
  Heb deimlo un dychryn na braw,
Gan feddwl dychwelyd yn gynnar,
  Heb dybied fod angeu gerllaw:
Ond yn y prydnawn daeth y newydd
  A glwyfodd galonau pob gradd,
Fod tri deg a phump o goliers
  Trwy'r ddamwain yn awr wedi 'u lladd.

Pan welid y cyrff yn dod fyny,
  'Roedd rhai yn llewygu gerllaw,
A lleisiau y gwragedd a'r mamau
  Yn toddi'r calonau difraw;
Ro edd rhai wedi llosgi'n arswydus,
  A rhai wedi mogi yn lan,
A gorchwyl anhawdd eu hadnabod,
  Gan effaith cynddeiriog y tan.

Fe redai y gwragedd mewn dychryn
  I edrych a welent eu gwyr,
A r mamau mewn lludded ac ofnau
  A geisient eu meibion yn wir ;

X205128871

Ond canfod eu hagwedd druenus
  A'u gwnaent yn alarus i gyd,
Y bywyd oedd wedi ymadael,
  A hwythau heb gar yn y byd.

Fe dro'wd eu hanneddau cysurus
  Yn llwm a thruenus eu gwedd,
Yn lle bod yn llanw y cornel,
  'Doedd dim ond eu hebrwng i'r bedd.
Lle gynt y preswyliai gorfoledd,
  Yn awr yr oedd ochain a gwae,
Y gadair yn wag o'i pherchenog,
  A drysau pob annedd yn nghau.

Y weddw yn wylo am ei phriod,
  A'r plentyn yn galw am ei dad,
A'r fam wedi colli ei bachgen,
  Yn wylo'n alarus trwy'r wlad;
Perth'nasau mewn blinder a thrallod
  Am golli'u cydnabod teg wedd,
A'r ardal i gyd yn ei galar
  Am roddi 'u cym'dogion i'r bedd.

Y plant a'nt i'r drws yn y cyfnos
  I ddysgwyl dyfodiad eu tad,
Ond nid ydyw swn ei gerddediad
  I'w meddwl yn rhoddi mwynhad;
Fe glywir y gwaith yn ei drydar,
  Fe welir y ffwrnes yn fflam,
Ond tad nid yw'n dychwel tuag adref,
  Rhaid byw yn nghyfeillach eu mam.

Mae tref Merthyr Tydfil mewn galar,
Ni welwyd fath alar cyn hyn,
Cysuron yn llwyr wedi 'madael,
Och'neidio ac wylo trwy'r glyn ;
Ugeiniau a daflwyd i dlodi,
Cypbyrddau yn wag heb ddim bwyd,
Y galon o'r braidd wedi 'i thori,
A'r gwyneb gan ddagrau yn llwyd.

O, Gymry, gwrandewch ar eu cwynion,
Os deuant ryw bryd at eich dor,
Cyfrennwch i'r rhai'n mewn cyfyngder
Ryw rhan o gyflawnder eich stor ;
Cyflymwch i sychu eu dagrau,
Rhowch nodded i'r egwan a'r tlawd,
Y gwaelaf a'r gwanaf o honynt
A ddeilliant i gyd o'r un cnawd.

Cysurwch, cysurwch y gweddwon,
A phorthwch y mamau sydd flin,
Dilladwch y crwydriaid amddifad,
Wynebant y gwyntoedd a'r hin ;
Mae gwobr i bawb mewn addewid
Am roddi elusen i'r tlawd,
Am hyny cyfrennwch, cyfrennwch,
Bydd Crist i chwi'n gar ac yn frawd.